

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 13 yn gynwysedig.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Yn bresennol: John Graystone (Cadeirydd), Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Julie Cook, Suzanne Samuel, Jenni Jones-Annetts, Cathy Clark, Daryl Leeworthy (o hanner ffordd drwy gofnod 3); Caroline Davies, Stephen Nicholls, Gareth Cork, Chris Franks, David Elis-Williams (roedd y pum aelod olaf hyn yn bresennol ar gyfer cofnodion 1 i 10 yn unig). Roedd cworwm drwy gydol y cyfarfod.

Yn bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Clerc/Ysgrifennydd y Cwmni); Iola Llwyd (cyfieithydd ar y pryd). Hefyd, Leane Saunders a Jayne Murphy (Swyddogion Darparu Cwricwlwm – De-ddwyrain Cymru), tiwtor a chwech o'n dysgwyr – ar gyfer cofnodion 1 a 2 yn unig; Andrew Clark a Helen Scaife (cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru) ar gyfer cofnodion 1 i 3 yn unig.

Ymddiheuriadau: Iwan Hywel, Gerry Jenson, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Dafydd Rhys, Guy Wallace Smith, Nick Taylor; Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Michelle Kerswell (Rheolwr Cwricwlwm a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg).

2. Cyflwyniadau gan Ddysgwyr a Sesiwn Drafod

Cyflwynodd Leane Saunders ddysgwyr o'i hardal ddaearyddol (Merthyr Tudful a Chwm Cynon), a oedd wedi dilyn amrywiaeth o gyrsiau a oedd ar gael iddynt – 'Hyfforddi'r Hyfforddwr', Gweithiwr Chwarae Lefelau 1 a 2, Diogelu, a Chymorth Cyntaf. Dywedodd y ddau ddysgwr benywaidd fod cymryd rhan mewn cyrsiau o'r fath wedi cael effaith gadarnhaol arnynt trwy gynyddu eu hyder a newid eu dulliau rhianta. Cydweithredwyd â'r cyflogwr lleol newydd Trago Mills yn ddiweddar; ac o ran llenwi'r bylchau yn sgil diwedd cynlluniau Cymunedau yn Gyntaf, roedd AOC | ALW yn bwriadu ymestyn cyrsiau Gwarchod Plant yn Rhondda Cynon Taf. Cyflwynodd Jayne Murphy (awdurdodau lleol Blaenau Gwent a Chaerffili) bedwar dysgwr a thiwtor o'i hardal. Yma, roedd cyrsiau Iechyd Meddwl, Cwnsela, Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth, Hylendid Bwyd, Tecstilau a Gwnïo, ac Iaith Arwyddion wedi gwella hunan-barch ac arwain at fwy o wirfoddoli. Crëwyd grwpiau rhwydwaith rhieni a chlybiau brechwast cymunedol ledled Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn ymateb uniongyrchol i ofynion y gymuned, ac roedd nifer o'r dysgwyr wedi cyfrannu atynt. Roedd y manteision o ran dilyniant dysgwyr a buddion teuluol, a gyflawnwyd trwy waith ymroddedig Swyddogion Darparu Cwricwlwm a thiwtoriaid, yn amlwg i'r rhai a oedd yn bresennol. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad cyn iddynt adael y cyfarfod.

3. Diweddariad ar ddatblygiadau presennol o ran ymagwedd Llywodraeth Cymru at addysg bellach ac addysg oedolion

Esboniodd Andrew Clark ei bortffolio o gyfrifoldebau, yr oedd addysg bellach ac addysg oedolion yn rhan ohonynt, a'r prif resymau pam yr oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r syniad o addysg oedolion ac yn ei hariannu. Roedd rhai o'r 'adenillion o'r buddsoddiad' yn y maes hwn, a oedd yn cyd-fynd yn llwyr â blaenoriaethau'r Llywodraeth, yn cynnwys lefelau uchel o dlodi, ac yn enwedig tlodi plant, yng Nghymru, cyflogadwyedd a lleihau faint o wasanaethau gofal cymdeithasol y byddai eu hangen ar bobl. Roedd ffactorau cadarnhaol eraill hefyd, yn sicr, fel y clywyd yn rhannol gan y dysgwyr yng nghofnod 2 –

cynyddu hyder, gwelliannau cyffredinol mewn iechyd, mwy o gynhwysiant a chydlyniant cymdeithasol, a llythrennedd digidol. Er bod ennill sgiliau'n bwysig, roedd y Llywodraeth yn sylweddoli y dylai addysg o'r fath hefyd fod yn bleserus a chyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Roedd y Gweinidog Addysg yn frwd o blaid pwysigrwydd addysg oedolion. Fodd bynnag, roedd dirprwyaeth o AOC | ALW am gyfarfod â'r Gweinidog yr wythnos ganlynol i drafod yr ymgynghoriad ar ariannu dysgu oedolion yn y gymuned yn y dyfodol, nad oedd penderfyniad wedi cael ei wneud arno eto. Oherwydd hynny, ni allai Andrew Clark ddweud mwy am y pwnc penodol hwnnw ar yr adeg hon.

O ran cyllid yn fwy cyffredinol, roedd y system a fu ar waith yn flaenorol ar gyfer addysg bellach wedi cael ei dadwneud gan y mesurau cyni a osodwyd gan lywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) ar ddechrau'r degawd. Er bod Colegau Cymru wedi gofyn am sefydlogrwydd a chysondeb o ran cyllid, ni fu hyn yn bosibl, yn enwedig yn ystod blynyddoedd canol y degawd. Er hynny, diogelwyd cyllidebau AOC | ALW yn ystod y cyfnod hwnnw i gydnabod ei gwaith gwerthfawr, tra bod y rhai hynny a oedd yn ymwneud ag agweddau addysg oedolion colegau ac awdurdodau lleol, a Gyrfa Cymru, wedi colli 50% neu fwy o'u cyllid gan Lywodraeth Cymru yn ystod yr adeg honno. Yn sgil newid demograffig, roedd angen cynyddu cyllid unwaith eto, a oedd yn gofyn am fodel cyllido diwygiedig. Roedd hyn yn golygu bod angen i ymgodiadau ar gyfer prinder a darpariaeth iaith Gymraeg, er enghraifft, gael eu lleihau. Derbyniodd Andrew Clark fod hyn, i bob pwrpas, yn gofyn i AOC | ALW weithio'n galetach am yr un wobwr ariannol. Fodd bynnag, nododd fod gan y sefydliad gyfran uchel o allbwn 'generig' o hyd, gyda llawer ohono yn y Celfyddydau, a chyfran gymharol fach ohono wedi'i hachredu; credai fod angen i'r ddarpariaeth gael ei chysoni'n agosach â blaenoriaethau Gweinidogol datganedig.

Ymdriniwyd ag amrywiaeth o bynciau yn y drafodaeth a ddilynodd: pwysigrwydd cefnogi'r Celfyddydau i greu unigolion cyflawn, yn wyneb gofynion cynyddol ar y gyllideb addysgol; cydnabod a gwerthfawrogi bod cyllideb y sefydliad wedi cael ei diogelu, i bob pwrpas, yn ystod cyfnod anodd a bod symiau ychwanegol at y dyfodol wedi cael eu clustnodi ar gyfer gwaith ein canghennau, gan gydnabod eu hagenda celfyddydau breiniol ddilys; y datganiadau gan ddysgwyr y prynhawn hwnnw a ddangosodd werth anuniongyrchol a chyfraniad anfesuradwy, i raddau helaeth, ein gwaith i unigolion a chymunedau; a'r angen i leihau aneffeithlonrwydd o ran gwariant y llywodraeth ar addysg a'r symudiad cynyddol tuag at gyflawni blaenoriaethau Gweinidogol. Roedd rhai o'r dysgwyr a ddisgrifiodd eu profiadau yn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r Llywodraeth trwy ddod o hyd i waith yn agos at gartref. Ond roedd hefyd angen sylweddoli bod cyfyngiadau ariannol yn golygu bod rhai prentisiaethau, er enghraifft, yn cael eu cwtogi gan nad oeddent yn darparu ymgodiad digonol, ac y byddai diwedd cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop ymhen ychydig flynyddoedd hefyd yn cael effaith niweidiol ar brentisiaethau, ac felly addysg oedolion, er nad oedd yr union effaith yn glir eto. Ychwanegodd Helen Scaife y ceisiwyd lleihau 'weithgarwch ymgysylltu' dros nifer o flynyddoedd: er y derbyniwyd bod cyrsiau blasu, fel y rhai a ddisgrifiwyd yn gynharach, yn dderbyniol i ddenu pobl i'r system, nid oedd yn bosibl ariannu parhad o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer yr un dysgwyr heb ryw faint o dystiolaeth fod yr unigolion hynny'n symud ymlaen.

Diolchwyd i Andrew Clark a Helen Scaife am eu cyfraniadau, a gadawsant y cyfarfod. **Cynigiodd y Cyngor y dylid eu gwahodd yn ôl i'w annerch yn flynyddol, mewn egwyddor.**

4. Adolygiad Sefydliadol: mabwysiadu Pecyn Cymorth Fframwaith Llywodraethu Da Gwirfoddol 2019 Llywodraeth Cymru

Roedd papurau cefndir wedi cael eu dosbarthu ynglŷn â hyn. Datganodd John Graystone fuddiant, oherwydd y bu'n aelod o'r gweithgor a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn 2017 i gynnal

asesiad o fesuriadau llywodraethu addysg bellach. Rhoddodd Stephen Thomas fwy o fanylion am sut oedd y fframwaith hwn wedi deillio o'r ymgynghoriad peilot a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn flaenorol, yr oedd AOC | ALW wedi chwarae rhan weithredol ynddo. Trafodwyd ei gysylltiadau ag argymhellion Estyn a sut gallai ymuno â'r cynllun gwirfoddol fod yn benderfyniad diplomyddol deheuig. **Cytunodd y Cyngor y dylai AOC | ALW fabwysiadu Fframwaith Gwirfoddol yr Adolygiad ar gyfer y flwyddyn 2018-19.**

5. Ethol Cadeirydd a dau Is-gadeirydd ar gyfer 2019-20

Gadawodd John Graystone a Toni Schiavone yr ystafell ar gyfer yr eitem hon. Yn eu habsenoldeb, cymeradwyodd y Cyngor yn unfrydol (ail-)ethol John Graystone yn Gadeirydd a Sonia Reynolds a Toni Schiavone yn Is-gadeiryddion ar y cyd y sefydliad, pob un ohonynt hyd at 31 Mawrth 2020. Dyma'r unig enwebiadau a dderbyniodd y Clerc ar gyfer y swyddi hyn. Ar ôl dychwelyd i'r cyfarfod, diolchodd John Graystone i'r aelodau am eu cefnogaeth barhaus i'r swyddogion wrth iddynt gyflawni eu rolau, a diolchodd hefyd i Sonia Reynolds a Toni Schiavone am eu cyfraniadau pwysig a rheolaidd.

6. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 4 Mawrth 2019 a materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion y trafodion Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd yng Ngwesty Neuadd Maesmawr, Caersws yn gofnod cywir, yn amodol ar gywiro enw **Daryl** Leeworthy yng nghofnod 3. Trafodwyd dau bwynt a gododd ohonynt ymhellach:

Cofnod 3 – Adroddiad y Prif Weithredwr: yn dilyn anogaeth gan y Cyngor, roedd cyfarfod i'w gynnal gyda swyddogion o swyddfa Ken Skates (Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth) yr wythnos ganlynol – er na fyddai ef ei hun yn bresennol.

Cofnod 3 – Arolygiad Estyn ym mis Ionawr 2019: roedd Estyn wedi cyhoeddi ei hadroddiad arolygu yn hwyr ym mis Ebrill, ychydig yn gynharach na'r disgwyl, ac fe'i dosbarthwyd gyda phapurau'r Cyngor. Roedd yn cynnwys 4 Argymhelliad, yn ôl y disgwyl (nid 3, fel y nodwyd yn y cofnodion blaenorol), ac roedd Mark Baines o'r farn bod yr adroddiad 10 tudalen llawn yn rhoi cyd-destun mwy eglur a darlun mwy cadarnhaol, at ei gilydd, na'r negeseuon a roddwyd yn y pum prif gasgliad cryno, a oedd braidd yn gymysg. Dywedodd nifer o aelodau'r Cyngor ei fod yn sicr wedi'i fynegi mewn 'iaith arolygu', ac y gallai casgliadau o rai brawddegau neu adrannau gael eu hystyried yn ganmoliaeth neu'n feirniadaeth, yn dibynnu ar ddehongliad y darlennydd o'r geiriad. Astudiwyd y Cynllun Gweithredu mewnol ar yr Argymhellion hefyd, a byddai'n eitem reolaidd ar agenda'r Cyngor/Pwyllgor hyd nes y cyfarfod swyddogol nesaf gydag Estyn. Roedd y Cyngor o'r farn y gallai'r thema **effaith / 'beth yw'r ots?'** a drafodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol **gael ei hadlewyrchu'n well trwy sylwadau perthnasol pellach yng ngholofn olaf y Cynllun Gweithredu.**

7. Materion Llywodraethu – cynigion ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, adolygiad cyfansoddiadol, cyfarfodydd y Cyngor, a diweddariadau ar Lysoedd Prifysgolion

Roedd llawer o'r rhai a oedd yn bresennol o'r farn y bu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yn Wrecsam yn hwyr ym mis Mawrth yn ddigwyddiad cadarnhaol, heblaw am y nifer siomedig o aelodau a'i mynychodd. Roedd hyn yn rhannol adlewyrchu'r gostyngiad arferol mewn niferoedd pan gynhelir y digwyddiad yng ngogledd Cymru; teimlwyd na fyddai newid union ddyddiad y dydd Sadwrn wedi cael

llawer o effaith ar bresenoldeb y tro hwn. Cyfeiriwyd hefyd at ostyngiad o flwyddyn i flwyddyn ym mhresenoldeb aelodau a oedd hefyd yn staff. **Cytunwyd ar y cynnig i newid ei fformat, gan ei wneud yn ddigwyddiad 'gŵyl' mwy o faint a gynhelir yn ystod yr wythnos waith.** Cynigiwyd Canolfan Soar ym Merthyr Tudful ac Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan fel lleoliadau posibl ar gyfer digwyddiad 2020. Byddai'r Clerc yn cysylltu ag eraill i gynllunio ar gyfer yr achlysur.

Nodwyd amserlen yr adolygiad cyfansoddiadol. Byddai Diwrnod Cynllunio Strategol 2019 ym mis Gorffennaf yn cynnwys sesiwn ar ymchwil bosibl i'r buddion ariannol a chymdeithasol, gan gynnwys arbedion o ran costau gofal, yn deillio o addysg oedolion (fel y crybwyllwyd yng nghofnod 3 yn gynharach). Gallai'r Sefydliad Dysgu a Gwaith (Cymru) arwain anghenion ymchwil/gwybodaeth o'r fath, o bosibl. Esboniwyd hefyd y byddai'r Diwrnod (a chyfarfod y Cyngor) yn cael eu cynnal mewn lleoliad heblaw am Gyffordd Llandudno fel y cynlluniwyd, am resymau logistaidd. O 2020 ymlaen, cytunwyd y byddai'r Diwrnod Cynllunio yn ddigwyddiad blynyddol ar wahân yn yr amserlen, ac na fyddai cyfarfod o'r Cyngor yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod. **Felly, penderfynwyd cynnal 6 chyfarfod o'r Cyngor yn ogystal â Diwrnod Cynllunio Strategol yn 2019-20.**

Gan droi at Lysoedd Prifysgolion, nododd yr aelodau gofnodion cyfarfod y mis blaenorol a gynhaliwyd yn Aberystwyth, a chlywsant fwy am yr ymgynghoriad achlysurol ag aelodau Llys Prifysgol Bangor y tu allan i'w gyfarfod unigol y flwyddyn. Roedd swydd wag wedi codi yn ein cynrychiolaeth ar Lys Prifysgol Abertawe (tymor cynrychiadol tair blynedd). **Penderfynodd y Cyngor ei bod yn briodol i'r cynrychiolydd hwnnw fod yn aelod o'r Cyngor, derbyniodd yr enwebiad ar ei gyfer gan Daryl Leeworthy (a oedd wedi graddio o'r Brifysgol honno ac yn gyn-ddarlithydd yno) a, thra oedd allan o'r ystafell, cymeradwywyd yn unfrydol ei enwebiad i fod yn gynrychiolydd AOC | ALW.**

8. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2019 a Chyfrifon Rheoli ar gyfer Awst 2018 – Ebrill 2019

Nodwyd cofnodion y Pwyllgor. O ran y papur cyllid yn ymwneud â naw mis cyntaf blwyddyn ariannol 2018-19, roedd y gwarged rhagamcanol wedi cynyddu ers y set flaenorol o gyfrifon a gyflwynwyd i'r Cyngor oherwydd bod gwerthiant campws Harlech (er nad oedd wedi'i gwblhau) wedi cael ei gydnabod, a oedd yn golygu y disgwyliwyd derbyn y swm o £200,000 erbyn diwedd y flwyddyn. Byddai'r incwm hwnnw'n cael ei ychwanegu at ein cronfeydd wrth gefn: roedd ei angen yno oherwydd cynigion cyllido trosiannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sefydliad yn ystod y tair blynedd nesaf, gan symud o grant o £1 filiwn i dderbyn swm cyfwerth ar sail darpariaeth addysgol 100% erbyn 2021-22. Roedd angen paratoi ar gyfer y toriad effeithiol arwyddocaol hwnnw erbyn Blwyddyn 3 trwy gymysgedd o arbedion effeithlonrwydd a chostau, a chynhyrchu incwm. Gobeithiwyd y byddai'r amser paratoi a roddwyd yn ddigonol i wneud newidiadau i ddibenion a disgrifiadau swydd rhai gweithwyr, gan felly leihau'r tebygolrwydd o ddileu swyddi.

Ymhelaethodd Mark Baines ar y nodyn ychwanegol (yn unol â chais y Cyngor) ynglŷn ag ymarfer ailstrwythuro staff 2017, gan amlinellu ei oblygiadau ariannol cyffredinol ryw 20 mis ar ôl ei gymeradwyo. Soniodd am yr arbedion ariannol a ddeilliodd o'r penderfyniadau anodd a wnaed bryd hynny, oedd yn golygu bod y sefydliad bellach yn parhau i fod yn ariannol hyfyw.

Cadarnhawyd y byddai rhaniad 80/20 cywir o ran darpariaeth wedi'i hachredu/heb ei hachredu yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn, oherwydd bod cyrsiau Tymor 3 wedi'u pwysu'n drymach o lawer tuag at waith achrededig.

9. Adroddiad y Prif Weithredwr, mis Mai 2019, gyda diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog

Cyfeiriodd Kathryn Robson at y ffigurau cryf o ran darparu addysg, oedd yn cyd-fynd â'r targed hyd yma yn ystod y flwyddyn academaidd, gan gynnwys camau cadarnhaol penodol i gynyddu darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, fel yr amlinellir yn y ddogfen ategol gysylltiedig. Nodwyd datblygiadau diddorol gyda phartneriaid newydd, y lefel sylweddol o weithgarwch mewn sawl cangen, ac enwebiadau ar gyfer Gwobrau Dysgwyr y Sefydliad Dysgu a Gwaith. Eglurwyd mai'r targed cywir ar gyfer dysgwyr ESOL (prosiect ACI), a ddyfynnwyd ym mharagraff 11.5, oedd 500 eleni mewn gwirionedd. Roedd tri aelod o'r Cyngor wedi cymryd rhan yn y cwrs ymwybyddiaeth o iechyd meddwl yn ystod y diwrnodau diweddar ac wedi'i ganmol, gan deimlo y gallai fod o ddefnydd i ddysgwyr yn fwy cyffredinol. Roedd y broses o werthu ein swyddfa yn Llanisien bron â'i chwblhau: disgwyliwyd y taliad ar ei chyfer cyn diwedd y mis calendr.

O ran y cyfarfod â'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, yr wythnos ganlynol, nid oedd yn eglur o ble y daeth y ffigurau ynglŷn â darpariaeth addysgol a ddyfynnwyd gan Andrew Clark yng nghofnod 3, ond roeddent yn ymddangos yn wallus a byddai angen eu cywiro yn y cyfarfod Gweinidogol hwnnw. Cynigiodd Toni Schiavone y dylai **un ochr A4 ychwanegol gael ei pharatoi ar gyfer y cyfarfod hwnnw, yn amlinellu gwybodaeth sefydliadol gywir a hanfodol.**

Er bod y Cynllun Gweithredu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog yn dangos bod y sefydliad yn ystyried ei rwymedigaethau yn y maes hwn o ddifrif, roedd yn cymryd amser i sefydlu'r seilwaith a'r personél allweddol, oedd yn golygu na fyddai'r targed o 5% o'r ddarpariaeth gyffredinol yn cael ei fodloni eleni. Roedd rolau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r rhaglen Cymraeg i Oedolion yn allweddol i ehangu'n llwyddiannus yn y maes hwn. Ychwanegodd Daryl Leeworthy y gallai'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg mewn cyrsiau gan gangen Merthyr Tudful gynyddu ffigurau gweithgarwch yn ddilys.

10. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2019 a'r Gofrestr Risg ar gyfer mis Mai 2019

Dywedodd Chris Franks, gan nodi nad oedd cworwm yn y cyfarfod, mai prif ganlyniad y Pwyllgor oedd gwneud sylwadau ar y Polisi Dyfynbris a Thendro diwygiedig, i'w gymeradwyo'n derfynol gan y Pwyllgor Adnoddau. Ychwanegodd fod archwiliad mewnol 2019 yn mynd rhagddo'n dda ac y gallai gadarnhau nad oedd unrhyw beth chwithig wedi cael ei ddatgelu hyd yma. Nodwyd cofnodion y Pwyllgor.

Roedd y Gofrestr Risg a ddsbarthwyd wedi cael ei diweddarau yng ngoleuni sylwadau'r Pwyllgor ddeufis yn gynharach. Yr unig gais a wnaed oedd ei bod yn cael ei gosod yn uwch ar yr agenda yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.

11. Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli – Adroddiad Cynnydd mis Mai 2019

Roedd pedwar Dangosydd coch (h. y. heb eu cyflawni) – yn ymwneud â darpariaeth Cyfrwng Cymraeg/Dwyieithog, ymgyrchu, asesu effaith addysg oedolion, ac arfarnu staff. Adroddwyd hefyd y bu 3 ymgais aflwyddiannus bellach i lenwi'r swydd Cydlynedd Datblygu Busnes (codi arian) newydd, ac y penderfynwyd gosod y rôl ar raddfa gyflog uwch a'i hysbysebu o'r newydd.

12. Adborth ar gyfarfod y Cyngor

Cytunwyd y dylai bathodynau enw ar gyfer aelodau'r Cyngor (a ddefnyddir yn ad hoc yn y cyfarfod) **ddod yn nodwedd safonol.** Cytunwyd hefyd, yn ogystal â chyfarfod â dysgwyr a chlywed ganddynt yng nghyfarfodydd achlysurol y Cyngor, **y byddai aelodau'n cael eu gwahodd yn gyfnodol i fynychu dosbarthiadau neu 'droeon dysgwyr' gyda staff yn eu rhan o'r wlad hefyd.**

13. Cadarnhau dyddiad cyfarfod olaf y Cyngor ar gyfer 2018-19

- Dydd Iau 18 Gorffennaf: Sesiwn Cynllunio Strategol (a.m.) – yn dilyn y rhaglen a amlinellir yn y papur cysylltiedig, ynghyd â chyfarfod o'r Cyngor (p.m.), mewn lleoliad yng nghanolbarth Cymru nad oedd wedi'i gadarnhau eto.

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Teitl y cofnod	Cam gweithredu y cytunwyd arno	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 3	Diweddariad ar ddatblygiadau presennol o ran ymagwedd Llywodraeth Cymru at addysg bellach ac addysg oedolion	Cynigiodd y Cyngor y dylid gwahodd Andrew Clark a Helen Scaife yn ôl i'w annerch yn flynyddol, mewn egwyddor.	JG / KR / ST	Yn gynnar yn 2020
Cofnod 4	Adolygiad Sefydliadol: mabwysiadu Pecyn Cymorth Fframwaith Llywodraethu Da Gwirfoddol 2019 Llywodraeth Cymru	Cytunwyd y dylai'r sefydliad fabwysiadu Fframwaith Gwirfoddol yr Adolygiad ar gyfer blwyddyn 2018-19.	ST	Medi 2019
Cofnod 6	Arolygiad Estyn ym mis Ionawr 2019	Gallai'r thema o effaith / 'beth yw'r ots?' a drafodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol gael ei hadlewyrchu'n well trwy sylwadau perthnasol pellach yng ngholofn olaf y Cynllun Gweithredu ar yr Argymhellion.	MB / Michelle Kerswell	Mehefin 2019
Cofnod 7	Materion Llywodraethu – cynigion ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, adolygiad cyfansoddiadol, cyfarfodydd y Cyngor, a diweddariadau ar Lysoedd Prifysgolion	Cytunwyd ar y cynnig i newid fformat y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, i'w wneud yn ddigwyddiad 'gŵyl' mwy o faint a gynhelir yn ystod yr wythnos waith.	ST	Medi 2019

		Penderfynwyd cynnal 6 chyfarfod o'r Cyngor yn ogystal â Diwrnod Cynllunio Strategol ar wahân yn 2019-20.	ST	Gorffennaf 2019
		Cymeradwywyd yn unfrydol enwebiad Daryl Leeworthy i fod yn gynrychiolydd AOC ALW ar Lys Prifysgol Abertawe.	ST	Mai 2019
Cofnod 9	Adroddiad y Prif Weithredwr, mis Mai 2019	Ar gyfer y cyfarfod Gweinidogol yr wythnos ganlynol, byddai un ochr A4 ychwanegol yn cael ei pharatoi, yn amlinellu gwybodaeth sefydliadol gywir a hanfodol.	KR	Mai 2019
Cofnod 12	Adborth ar gyfarfod y Cyngor	Cytunwyd y dylai bathodynnau enw ar gyfer aelodau'r Cyngor ddod yn nodwedd safonol. Byddai aelodau'n cael eu gwahodd yn gyfnodol i fynychu dosbarthiadau neu 'droeon dysgwyr' gyda staff yn eu rhan o'r wlad.	ST MB / ST	Gorffennaf 2019 Gorffennaf 2019